

Diwrnod o weithredu ar draws Cymru a'r byd yn wyneb yr argyfwng hinsawdd



Rhai o'r 'bloc ffydd' – yn cynrychioli cefnogwyr yr elusennau Cristnogol Tearfund, Cymorth Cristnogol a Cafod – a ddaeth ynghyd yn Eglwys Dewi Sant am gyfarfod o addoliad a gweddi dros gyfiawnder hinsawdd cyn ymuno â'r orymdaith yng Nghaerdydd

Daeth ymgyrchwyr a chefnogwyr ynghyd i nifer o leoliadau yng Nghymru a ledled y byd ar 6 Tachwedd ar gyfer diwrnod o weithredu byd-eang ar gyfiawnder hinsawdd. Gyda chynhadledd COP26 yn dal i fynd rhagddi yn Glasgow, fe anfonwyd neges glir bod pobl yn malio ac yn fodlon troi allan i ddangos hynny ac i fynnu gweithredu dros gyfiawnder i'r rhai sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan yr argyfwng hinsawdd.

Yng Nghymru fe fu'r cynulliad mwyaf yng Nghaerdydd, lle tybir bod torf o 6,000 yn bresennol wrth iddyn nhw orymdeithio drwy'r ddinas er mwyn ymgynnull wedyn ar risiau adeilad y Senedd yn y Bae. Cafwyd cefnogaeth nifer helaeth o bobl hefyd i'r diwrnod ym Mangor ac yn Abertawe, a chynulliadau llai yn Wrecsam, Caergybi a Threffynnon, ymysg llefydd eraill.



Yr orymdaith a gynhwysai nifer fawr o fudiadau ar fin dechrau ger neuadd y ddinas yng Nghaerdydd



Ymgynnull wrth y cloc ym Mangor ar gyfer yr orymdaith yno wedi'r gwasanaeth yn Eglwys Emaus yn y ddinas



Tom Defis o Gymorth Cristnogol gydag aelodau o'r eglwysi a ddaeth ynghyd yn Abertawe

Dwi'n hoffi coffi Jenipher!

Yr un penwythnos â'r raliâu ar draws Cymru, roedd ffermwraig goffi o Uganda o'r enw Jenipher Wattaka ar ymweliad â Chymru, ar ei ffordd i gynhadledd COP26 yn Glasgow. Cafodd fod yn y rali yng Nghaerdybi, a bore Sul, 7 Tachwedd, fe gafodd pobl yr Wyddgrug y fraint o'i chyfarfod mewn gwasanaeth yno. Fe glywsom nhw am ei gwaith fel ffermwraig, arweinydd a chwffiw'r wrth iddi hi ddweud ei stori a siarad ar ran cymdeithas gydwethredol o dros 3,500 o ffermwyr coffi ar odre Mynydd Eglon yn Uganda.

Soniodd hefyd am y ffordd arbennig yr oedd ei ffydd a'i magwraeth Gristnogol yn ei chynnal ac yn ei hysbrydoli i fynnu cyfiawnder, caru ei chymydog a gofalu am y rhai mwyaf bregus o'i chwmpas. (Dolen i recordiad o'r gwasanaeth y bu'n annerch ynddo: <https://youtu.be/hTRDUXhvTr8>)

Jenipher Wattaka, sy'n ffermwraig goffi ers 30 mlynedd, yw'r ferch gyntaf i fod yn is-gadeirydd cwmni cydwethredol o ffermwyr ar odre llechweddau Mynydd Eglon yn nwyrain Uganda. Maen nhw'n cydweithio i gynhyrchu Jenipher's Coffi i safon organig a Masnach Deg.



Jenipher Wattaka gartref ar ei fferm goffi yn plannu'r coed sy'n helpu i ddiogelu'r cnydau, cynyddu bioamrywiaeth a gwarchod y ffermwyr rhag y gwres

Wedi iddi gyrraedd Glasgow yn hwyrach yn y dydd, fe fu'n brysur yn annerch ac yn rhannu am effeithiau newid hinsawdd ar ei fferm, ei theulu a'i chymuned. Bu'n sôn am bwysigrwydd buddsoddi'n uniongyrchol mewn gwarchod yr hinsawdd drwy brynu nwyddau Masnach Deg, fel y coffi sy'n cael ei gynhyrchu ganddynt. Mewn cydweithrediad bellach efo Llywodraeth Cymru, sy'n cefnogi plannu amrywiaeth o goed ar y ffermydd yn Uganda, mae'r coffi'n cael ei werthu yma yng Nghymru. Fe ellir darllen mwy o'i hanes ac archebu'r coffi ar y wefan: www.jenipherscoffi.wales

Dyma ddolen i fideo o gyfarfod arbennig a gynhaliwyd yn Glasgow gan Jenipher's Coffi a'r mudiad Gweithredu Cymunedol

Cydweithredol Cymru ac Uganda. Yno, bu Jenipher yn sôn am effeithiau newid hinsawdd ac am y gwaith o blannu coed amrywiol er mwyn lleihau'r effaith hwnnw a gwella'r cnydau coffi a dyfir:

<https://youtu.be/ZfNVV8ApGu8>



Yn y llun fe welir Jenipher yn siarad â rhai o'r bobl ifanc yng nghynhadledd COP 26

Hadau, gobaith a bywyd Ysgol Sul Capel y Morfa, Aberystwyth

Ar ddechrau tymor newydd yr ysgol Sul a thymor y diolchgarwch, braf oedd cyfarfod yn yr awyr agored yng Nghanolfan Bwlch Nant yr Arian a chefnogi'r Ras am Fywyd ar y prom yr wythnos ganlynol. Thema gweithgareddau Crefftâu'r Croeso oedd 'Ffrwythau a Hadau Gobaith' – thema ein gwasanaeth diolchgarwch a thema Cymorth Cristnogol eleni.

Yn y gwasanaeth diolchgarwch gwelwyd y ffilm gyfoes o Ddameg yr Heuwr a baratowyd gan Gwyn Rhydderch. Cafwyd cyfle i ddiolch am ffrwythau'r greadigaeth a myfyrion ar ffrwythau'r tir da – sef Ffrwythau'r Ysbryd.

Mae'r dosbarth ieuencid yn cyfarfod bob wythnos mewn lleoliad gwahanol yn yr awyr agored. Yn ystod eu trafodaethau ar y thema 'Hadau Gobaith' eu penderfyniad oedd hau hadau mewn blychau y tu allan i'r capel. Maent yn dechrau egino gan ddangos arwyddion o fywyd a gobaith.

Eleri Davies



Cyflwyno tair Medal Gee 'er anrhydedd' am gyfraniad oes i waith yr ysgol Sul yng Nghymru

Ers dros 15 mlynedd mae Cyngor yr Ysgolion Sul wedi bod yn cyflwyno medalau Gee 'er anrhydedd' i unigolion a wnaeth gyfraniad nodedig yn hanes a thystiolaeth yr ysgol Sul yn genedlaethol. Mae'r medalau hyn wedi'u rhoi i rai fu'n paratoi adnoddau, yn gwasanaethu ar bwyllgorau plant ac ieuencid, yn hybu ac yn annog gweithgaredd plant, neu'n gwasanaethu'r Cyngor yn gyffredinol.

Cyflwynwyd y medalau cyntaf 'er anrhydedd' yn 2004 i Elisabeth Lloyd James a Rheinalt Thomas. Ers hynny cyflwynwyd 15 arall: yn 2005 i Mr Elfed Hughes o Uned Arfon a fu'n weithgar fel gweithiwr cyflogedig i'r Cyngor am ddeng mlynedd, ac yna i'r canlynol am eu cyfraniad nodedig: y Parchedigion Gareth Maelor Jones a Vincent Watkins yn 2006; y Parchedigion Huw John Hughes, Trefor Lewis ac Edward David Morgan yn 2010; y Parchedig Derwyn Morris Jones a Miss Beti Griffiths yn 2011; y Parchedig Ddr Elfed ap Nefydd Roberts yn 2013; y Barchedig Angharad Roberts ac Arfon Jones am eu gwaith gyda beibl.net yn 2015; ac i'r Parchedig J Ronald Williams yn 2017.

Enwebwyd y Parchedigion Catrin ac Ifan Roberts a Mr Nigel Davies i dderbyn medalau yn 2020, ond oherwydd Covid, bu'n rhaid gohirio'r cyflwyno tan 2021.

Braint oedd cael cyflwyno medal yr un i Ifan a Catrin Roberts yn Llanddarog yn ddiweddar, a hynny mewn cyfarfod a gynhaliwyd i gyflwyno medalau i nifer o ffyddloniaid yr eglwys yno.

Mae'r ddau wedi gwneud cyfraniad nodedig i'r dystiolaeth Gristnogol ymhlith plant ac ieuencid, gan gynnwys cefnogi ysgolion Sul a rhedeg clybiau plant eu hunain ym mhob gofalaeth y buon nhw'n gweinidogaethu ynddi. Pan oedden nhw ym Meirionnydd roedd pum clwb wythnosol dan eu gofal, a dyna fu patrwm eu gweinidogaeth



Ifan a Catrin Roberts gyda'u medalau

mewn gofalaethau yn dilyn hynny. Bu'r ddau hefyd yn weithgar ar bwyllgorau plant ac ieuencid y Cyfundeb, ac yn gefnogol iawn i weithgarwch Coleg y Bala.

Bu Catrin ddiwyd yn paratoi deunyddiau Cristnogol, gan ddarparu llw o adnoddau ar gyfer gwefan beibl.net, yn ogystal â chyhoeddi sawl cyfrol o wersi ysgol Sul a gweithgareddau i glybiau plant. Bu hefyd yn gyfrifol am gyfieithu caneuon ac emynau i blant ac yn rhan o baratoi'r cyfrolau emynau a chaneuon i blant *Tyrd i Ddathlu a Canu Clod*. Bu Ifan yn ymddiriedolwr ac yn ysgrifennydd y Cyngor yr Ysgolion Sul yn ei dro. Mae'r ddau hefyd wedi bod yn weithgar gyda chynllun Agor y Llyfr a nifer o brosiectau lleol eraill. Diolchwn iddynt am oes o wasanaeth, ac am eu hawydd a'i brwdfrydedd i gyflwyno'r efengyl i blant. Maen nhw bellach wedi ymddeol ac yn byw yng Nghaerdydd, ond yn parhau i fod yn weithgar yn eu heglwys leol.

Ymhen yr wythnos cyflwynwyd medal hefyd i Mr Nigel Davies (a oedd ar ei wyliau dros gyfnod cyfarfod Llanddarog) am ei gyfraniad nodedig yntau. Cafwyd gwahoddiad i ymweld â'i gartref ger San Clêr, lle cafodd Aled Davies, Cyfarwyddwr Cyngor yr Ysgolion Sul, gyfle i ddiolch iddo am gydweithio hapus dros gyfnod maith o 18 mlynedd fel gweithiwr i Yngor yr Ysgolion Sul. Penodwyd Aled a Nigel yr un diwrnod, a hynny ddechrau 1989, Aled i weithio yn y gogledd a Nigel yn y de. Bu Nigel yn weithgar yn ei ardal, a chofir am y gornestau chwaraeon, y cwisiau Beiblaidd, Bwrlwm Bro, a nifer o wersylloedd Cristnogol yn Llangrannog, Pen-y-groes a Phorth Tywyn. Teithiodd hefyd i eisteddfodau a nosweithiau hyfforddi athrawon a gweithwyr Cristnogol.



Nigel Davies (ar y dde) yn derbyn ei fedal gan Aled Davies

Wedi 18 mlynedd o gydweithio hapus, penodwyd Nigel i barhau â'r un math o waith i elusen MIC (Menter Ieuencid Cristnogol), gan weithio'n fwy lleol yn Sir Gaerfyrddin, a gwnaeth hynny am 12 mlynedd arall. Diolchwn am gyfraniad Nigel, a fu'n brysur yn cyflwyno'r efengyl i gannoedd o blant ac ieuencid mewn amryw ffyrdd. Bu hefyd yn gweithio'n rhan amser fel swyddog plant i eglwys Penuel, Caerfyrddin, lle mae'n aelod gwerthfawr ac egniol. Erbyn hyn mae Nigel yn dilyn cwrs pregethwr llyeg, a dymunwn yn dda iddo yn y maes hwnnw.

Oes, mae gan ysgolion Sul Cymru le i fod yn ddiolchgar am gyfraniad y tri ohonynt, a diolchwn am eu tystiolaeth gloddiw sy'n parhau.

Aled Davies,
Cyngor yr Ysgolion Sul
www.ysgolionul.com

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Sul, 21 Tachwedd, am 7.30yh (ailddarlledir y Sul canlynol am 11.30yb)

Yr wythnos hon byddwn yn nodi 20 mlynedd ers cyhoeddi'r copi cyntaf o *Caneuon Ffydd*. Bydd Nia yn cwrrd â'r Parch John Gwilym Jones, oedd yn aelod o'r pwyllgor ugain mlynedd yn ôl, a chawn glywed gan ddwy ffrind yng Nghapel Dewi a ganodd eu ffordd drwy dudalennau *Caneuon Ffydd* yn ystod y clo mawr.

Am gopi digidol o gylchlythyr mis Tachwedd, cliciwch ar y ddolen:

<https://spark.adobe.com/page/oucFKNip3L8Cr/>

BBC radio cymru

Sul, 21 Tachwedd – *Caniadaeth y Cysegr*, 7:30yb a 4:30yp

Rhian Williams sy'n trafod cyfraniad y cyfansoddwyr Bach a Handel i'n hemynyddiaeth

Sul, 21 Tachwedd – *Oedfa Radio Cymru*, 12:00yp
Gwasanaeth yng ngofal y Parch Casi Jones, Bangor

Y Dirywiad yn Brathu?

Adroddiad cyfarfod hybrid o Gymdeithasfa'r De, Eglwys Bresbyteriaidd Cymru, yn y Crwys, Caerdydd, 21 Hydref 2021

Nid profiad newydd ydoedd mynychu cyfarfod o'r Sasiwn ar sŵm. Ac er bod manteision o fedru eistedd gartref ac osgoi teithio pell, eto, profiad digon artffisial a diflas ydoedd. Aed trwy'r gwaith yn esmwyth braf dan gadeiryddiaeth fedrus-ofalus Mr Cliff Williams, y Llywydd.

Datblygiadau

Gwelodd yr eisteddiad cyntaf drafod y cynlluniau diweddaraf ynglŷn â datblygu safle Moreia, Leytonstone. Y bwriad yw hybu tystiolaeth Gristnogol Gymraeg ymhlith y Cymry sy'n byw neu a ddaw i'r ardal hon yn nwyrain Llundain. Bydd yn cynnwys capel, meithrinfa, ysgoldy a nifer o ystafelloedd, ynghyd â fflatiau a siopau newydd fydd yn sicrhau incwm blynyddol i'r Cyfundeb ac eglwys y Drindod. Datblygiad cyffrous a diddorol! Patrwm i eraill? Hwyrach, wir. Ar gais Henaduriaeth Morgannwg-Llundain cadarnhawyd y cynlluniau gan ymddiried i'r Bwrdd Eiddo a'r ymddiriedolwyr lleol i ddiogelu manylion y trefniadau terfynol ar ran y Cyfundeb. Caniatwyd hefyd gais Henaduriaeth Myrddin am ryddhau arian i barhau tair swydd o fewn yr Henaduriaeth am y tair blynedd nesaf.

Buddsoddi

A barnu oddi wrth y bleidlais, roedd pawb yn eiddgar i ddilyn argymhelliad y trysorydd, Mrs Kathryn Morris, i drosglwyddo ein harian i'w fuddsoddi'n ganolog. Derbyn llogau uwch oedd y cymhelliad.

Trefniadau

Prif faes trafodaeth y pawns oedd Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol. Codwyd nifer o faterion a fwriedid i hwyluso ein trefniadaeth gorfforaethol a gweinidogaethol gan ystyried y dirywiad parhaol sydd yn ein plith serch ein had-drefnu yn 2008. Bryd hynny soniem am gryfhau'r Henaduriaethau a rhoddi iddynt fwy o rym a hwnnw, felly, yn nes at aelodaeth yr Eglwys.

Bellach, mae sôn naill ai am gadw'r strwythur fel y mae a chlystyru Henaduriaethau er mwyn hwyluso gweinyddiad neu am ddiddymu'r Henaduriaeth fel llys eglwysig. Doedd y Sasiwn ddim yn hapus, â rhai yn ofni cryfhau grym y 'canol', cynyddol bellhau oddi wrth y lleol a llacio'r cysyniad o

berthyn yn ein plith. Y canlyniad oedd anfon y materion hyn i drafodaeth yr Henaduriaethau gan bwysu am drafodaeth ddwys ar gefndir ein sefyllfa fregus fel Corff. Beth bynnag fydd canlyniadau'r drafodaeth hon, mae un cwestiwn cwbl heriol a hwnnw yw: beth a ddisgwyliwn oddi wrth 'y strwythur' a beth sy'n gynaliadwy.

Cawn yr argraff fod y dirywiad yn carlamu rhagddo a ninnau'n ceisio dal i fyny ag ef a'r cyfrifoldeb yn gorffwys ar y genhedlaeth hŷn – er bod cyfeiriad yn y papurau at gynnal cyfarfodydd rhithiol y tu allan i oriau gwaith arferol. Os am sicrhau strwythur effeithiol, rhaid wrth rai i'w chynnal ac iddynt hwythau deimlo argyhoeddiad a sêl dros hynny. Rhaid diolch i awduron y papur trafod hwn am ddos go dda o realrwydd, a da oedd gweld y Sasiwn yn cymryd safbwynt unedig ar y materion hyn.

Ond rhaid pwylo, oherwydd nid dirywiad ar bob llaw yw ein hanes ac nid hollol fewnol na mewnbylg yr ysbryd sy'n ein plith, serch bygwth yr ystadegau.

Polisi Amgylcheddol

Tynnodd Meirion Morris ein sylw at Bolisi Amgylcheddol y Cyfundeb sy'n mynd i'r afael yn ddiwinyddol ac ymarferol â'r sialens fwyaf sy'n ein hwynebu fel dynoliaeth heddiw ac sy'n bygwth dyfodol ein planed gyfan. O gredu yn Nuw y Crëwr a'i fod yng Nghrist yn cymodi y byd ag Efe i hun, dyma ddod â ni yn agos at galon yr Efengyl gyda'r pwyslais ar gariad hunanaberthol, maddeuant, cymod a chyfiawnder, ar gyfrifoldeb yr unigolyn a'i gymdeithas, y genedl a'r cenedloedd. Anfonir y polisi hwn i sylw a gweithrediad yr Henaduriaethau a'r eglwysi.

Cymorth Cristnogol

Yma mae'r Cyfundeb â'i olwg ar y presennol a'r dyfodol, ar ansawdd bywyd ein plant a'u plant hwythau. Arwydd arall o fywyd ydoedd y trefniadau ar gyfer yr ymdrech bum mlynedd i gefnogi gwaith Cymorth Cristnogol, y tro hwn i helpu dioddefwyr canlyniadau cynhesu byd mewn rhannau o Affrica. Daw'r manylion i'r Henaduriaethau a'r eglwysi maes o law, ond nid yw'n rhy gynnar i'r Henaduriaethau benodi eu swyddog cyswllt yn awr. Gwerthfawrogwn hefyd gyhoeddiadau newydd Adran y

Chwirydd – astudiaethau Beiblaidd a Golud, cymorth i'r rhai sy'n dioddef oddi wrth ddementia a'u gofalwyr.

Dwyster

Nid oedd y Sasiwn heb ei munudau ysbrydol dwys o addoliad a diolch. Cawsom goffâu'r Parch Maldwyn John a nifer o flaenoriaid o'r tair Henaduriaeth a gollwyd o'n plith oddi ar Sasiwn 29 Gorffennaf. Ian Sims a'n harweiniodd mewn gweddi.

Gan na bu llongyfarch ar flynyddoedd gwasanaeth ers 2019 roedd y rhestr honno yn burfaith – un gweinidog a 35 o flaenoriaid yn cynrychioli rhyngddynt tua 1300 o flynyddoedd o wasanaeth i Eglwys Crist a broydd ac ardaloedd y Sasiwn. Mr Tony Platt, yr ysgrifennydd newydd, a ddarllenodd yr enwau, Cliff Williams fynegodd y llongyfarchion mewn geiriau o werthfawrogiad diffuant ac arweiniodd y rheini ni at wasanaeth y Cymun Sanctaidd.

Yn ei anerchiad pwysleisiodd y Parch Dafydd Andrew Jones, a ddathlai 50 mlynedd yn y weinidogaeth, ein bod wrth y bwrdd, er yn annheilwng o'r fraint, yn rhannu yng nghwmni'r Drindod Sanctaidd a hynny yng nghyd-destun y Sasiwn a'i agenda o her a gobaith. Y gair allweddol fel bob amser ydoedd 'diolch' ac yn y cyswllt hwn am y fraint o fod ynglŷn â'r gwaith, am gwmni cyd-weithwyr, am y blynyddoedd o wasanaeth a roddwyd ac yn bennaf oll am Efengyl i'w chyhoeddi a'i byw. Wrth ganoli ar eiriau Iesu ar y groes (Mathew 27, adnod 46), gwelai rym y groes yn rym y di-rym, *gwefry groes* yn cyrraedd at ddyfnder argyfwng dynoliaeth a gobaith y groes yn addewid o fywyd newydd i ddynoliaeth yn atgyfodiad Iesu. Y Llywydd a'n harweiniodd at y Bwrdd.

Do, fe gwblhawyd gwaith y Sasiwn erbyn 3 y prynhawn. Ond 'artffisial' a 'diflas', meddwn! Digon tawedog oedd hi ar y cyfan a nifer cymharol fychan, 25 yn wir, oedd yn bresennol. Ai'r sŵm oedd yn gyfrifol am hynny, ynteu nad oedd i'r Sasiwn agenda a daniat na meddwl na dychymyg? Collwyd y teimlad a'r awyrgylch o berthyn ac agosatrwydd o beidio cyfarfod wyneb yn wyneb, ac felly'r sgwrsio, y rhannu a chyfarfod ein gilydd. Annerch seddau gwag a wnaem ni oedd yn y Crwys, ac wynebâu'r cynrychiolwyr y tu cefn i ni, methu gweld na synhwyro arwyddion corfforol, na gwng na gwên. Mecanyddol ac oeraidd, hybu busnes, bid siŵr, ond nid cynhesrwydd perthynas o fewn teulu'r Ffydd. Ac eto, fe ddigwyddodd y Sasiwn.

Dafydd Andrew Jones



O Gefn Gwlad



Gormes a dylanwad

Rhyddid y pwlpud

Yn ddiweddar mi ddois ar draws sylw gan George Orwell am ryddid, a dyma fo: 'Os yw rhyddid yn golygu unrhyw beth, mae'n golygu'r hawl i ddweud wrth bobol yr hyn nad ydyn nhw eisiau ei glywed.'* A phan ddarllenais i'r sylw yna mi aeth fy meddwl yn ôl dros y blynyddoedd a'r holl bregethau – gannoedd, os nad miloedd – wrandewais i arnyn nhw, gan gynnwys nifer go dda gan fy nhad.

Clywed

Mi glywais lawer o bethau nad oeddwn i eisiau eu clywed, yn siŵr i chi: mod i'n bechadur, mod i'n golledig, mod i angen maddeuant, fod y pechod gwreiddiol yn rhan ohonof, nad yw unrhyw weithredoedd da gen i yn cyfri dim yn nydd y farn, fod yn rhaid edifarhau cyn cael unrhyw obaith. A rhai pethau rhyfedd iawn, megis y sicrwydd o atgyfodiad y corff ar y diwrnod pan fydd y beddau 'yn rhoddi eu meirw'n rhydd'!

Rhyddid i draethu

Y mae o leia dri pheth pwysig i'w datgan yng nghyd-destun hyn oll, dwi'n meddwl.

Yn gynta, fod gan bregethwr, boed yn lleygwr neu weinidog, yr hawl o fewn terfynau gweddustura i ddweud beth a fynno o'r pwlpud, i hynny y'i gwahoddwyd. A dyna yw rhyddid y pwlpud. Dweud yn ôl ei weledigaeth ei hun, wrth gwrs, ac y mae o fewn ein cyfundrefnau crefyddol amrywiaeth o syniadau a dehongliadau posib ar wirionedd yr efengyl. Af i ddim i draethu ar y rheini gan nad dyna bwrpas y sylwadau hyn, ond yn hytrach amddiffyn hawl y cennad pwlpudaidd i ddehongli yn ei ffordd ei hun.

Mi glywais ddweud croes i'w gilydd fwy nag unwaith. Clywais bregethau'n datgan – a dwi wedi cyfeirio at hyn o'r blaen ryw dro – mai gwaith gras yw codi person o'r ffos, tra bod rhai eraill yn datgan mai swyddogaeth gras yw cadw person rhag mynd iddi yn y lle cynta. Ond dydw i ddim yn credu y dylsw'n i fynd i gapel gan ddisgwyl clywed yn ddi-feth y pethau yr ydw i bob amser yn credu



Pulpud Cydweli

ynddyn nhw. Rwy'n barod i wrando ar sylwadau a syniadau nad ydw i'n cytuno â nhw o gwbl. Dyna ryddid y pwlpud ac rwy'n fwy na pharod i'w amddiffyn.

Rhyddid i dderbyn neu i wrthod

Ond y mae yna agwedd arall ar ryddid y pwlpud, sef fy hawl i fel gwrandawr i dderbyn neu wrthod yr hyn a leferir wrthyf. Er mor fychan y rhan fwy o gynulleidfaoedd ein capeli erbyn hyn, y mae yna yn eu plith goleddu amrywiaeth ryfeddol o greddau: o'r rhai sy'n credu mai ein gweithredoedd sy'n bwysig i'r rhai sy'n credu mai edifeirwch yw'r unig allwedd i achubiaeth, a'r rhai sy'n credu yn wir nad oes gobaith heb inni gael ein hachub a chael tröedigaeth. Yr ydym bob un wan jac ohonom sy'n gwrandao ar bregeth yn derbyn yn ôl yr hyn a gredwn.

Y mae dau ryddid yn cyfarfod ei gilydd mewn pregeth felly, fel ym mhob cyfarfod cyhoeddus arall, a dweud y gwir, sef rhyddid y llefarydd a rhyddid y gwrandawr.

Onid pawb at y peth y bo ydi hi yn y diwedd? Ac y mae'n well gen i – fel yn wir y dywedodd un pregethwr beth amser yn ôl – Grist yr efengylau, yn enwedig y Crist weithredai gariad a thosturi, na Christ dehongliad Paul. Ac yng ngoleuni'r agwedd honno ar bethau y gwrandawar

ar bob pregeth, gan dderbyn neu wrthod yr hyn a leferir wrthyf. Ond fe ddylwn i, a phob gwrandawr arall, fod yn agored i gael ein hargyhoeddi o rai pethau.

Rhyddid i beidio gwrandao

Y mae yna drydedd agwedd ar y rhyddid yma, sef rhyddid pobol i beidio dod i wrando ar yr hyn nad ydyn nhw am ei glywed. Y mae'r canran o bobol sy wedi troi cefn ar gapel ac eglwys yng Nghymru yn syfrdanol, yn echrydus. Onid rhan o'r esboniad yw nad yw pobol am ddod i glywed yr hyn nad ydyn nhw eisiau ei glywed? Ydyn nhw ofn? Ydyn nhw'n llwfr? Ai 'gad fi'n llonydd' yw'r agwedd? Gan fod ein Cylch Trafod wedi ailgychwyn, cawn wyntyllu'r mater hwn yn y man.

Y mae'r gwrthgilio hwn gan y mwyafrif mawr rhag dod i glywed yr hyn nad ydyn nhw eisiau ei glywed yn broblem, onid yw? Pa les, wedi'r cyfan, yw'r rhyddid i ddweud pethau nad yw pobol eisiau eu clywed os nad yw'r bobol hynny yn barod i wrando o leia, os nad i gytuno. Onid pwlpudau yn annerch seddau gwag yw tristwch mwyafrif ein hoedfaon yng Nghymru erbyn hyn?

Elfyn Pritchard

* If liberty means anything at all, it means the right to tell people what they do not want to hear.

Tywysog Tangnefedd mewn Byd o Ryfeloedd

Wrth arwain at dymor yr Adfent, fe fyddwn yn cyflwyno cyfres o fyfyrddodau o'r gyfrol The Prince of Peace in a World of Wars gan David Kerrigan (llyfr Adfent y BRF) yn ganllaw ar gyfer astudiaeth a thrafodaeth mewn grŵp bychan ac ar gyfer myfyrdod personol. Hyd 2017 David Kerrigan oedd Cyfarwyddwr Cyffredinol Cenhadaeth Fyd-eang y BMS (Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr).

3 Deall Heddwch

Shalom yn yr amser i ddod

Darllen: Eiseia 11:1-3,6-9

Mae Eiseia 11 yn un o'r darnau mawr hynny yn yr ysgrhythur sy'n rhagfynegi dyfodiad y Meseia. Yn yr adnod gyntaf fe glywn am Jesse, tad y brenin Dafydd, yr oedd cymaint o barch yn Israel tuag ato. Mae'r un sy'n flaguryn o gyff Jesse (y bydd ysbryd yr Arglwydd yn gorffwys arno) yn awgrymu disgynnydd i ddod a fydd yn y llinach frenhinol. Yn ei restr achau, mae Mathew yn cysylltu Iesu â Dafydd, Dafydd â Jesse a Jesse ag Abraham (gw. Mathew 1:1-7) fel petai'n gosod yr olygfa ar gyfer hanes ei eni neu ei Nadolig. Wrth wneud hynny, mae'r efengyllydd yn ei gwneud hi'n eglur mai Iesu yw'r un sy'n cyflawni addewid Duw i Abraham i alw pobl ato'i hun (gw. Genesis 12:1-3).

Ceir rhestr achau yn efengyl Luc hefyd (3:23-8), sy'n cysylltu Iesu â Dafydd, Dafydd â Jesse a Jesse yn ôl at Adda, gan dynnu sylw at y ffaith y bydd y Meseia yn dad-wneud y cyfan sydd wedi ei golli yn sgil y cwmp.

Mae hyn yn swnio'n ardderchog cyn belled! Ond mae'r mewnwelediad newydd cyffrous yn adnodau 6-9 yn y bennod dan sylw yn ymestyn y tu hwnt i'r hyn yr ydym wedi ei brofi eisoes. Ydy, mae heddwch ar gael i bawb sy'n rhan o deulu'r ffydd; ydy, mae'r heddwch hwnnw yn rhywbeth sydd â goblygiadau ymarferol ar gyfer pawb heddiw, ac ar gyfer cenhadaeth yr eglwys. Ond mae'r adnodau hyn fel petaent yn rhag-weld dydd pan fydd popeth a ystyriwn yn arferol a chyffredin inni yn cael ei newid. Pwy all ddychmygu dydd pan fydd blaidd ac oen yn cydorwedd? Allwch chi ddychmygu dydd pan fydd llew a llo yn cael eu harwain allan am dro gan


blentyn? Baban heb ei ddiddynfynu eto yn chwarae â neidr? Am beth mae hyn i gyd yn sôn?

Fe ymddengys mai'r hyn sy'n digwydd ydy bod yr holl elyniaeth, drwgdeimlad a thrais yr ydym yn ei gymryd yn ganiataol yn y byd yn cael ei gyfnwid am y profiad o fyw mewn cytgor. Ceir llawenydd diderfyn yn y delweddau hyn, ag adlais o Eden yn amlwg yn rhan o'r bwriad wrth inni alw i gof yr awdurdod hwnnw a roddwyd i ddyn yn Genesis 1:26-8. Edrych ymlaen mae'r adnodau hyn yn Eiseia, wrth gwrs, ond canlyniad ymddangosiad y Meseia o linach Dafydd ydynt, a chadarnheir hyn gan loan wrth iddo ef adrodd am y weledigaeth o Iesu a roddwyd iddo oedd yn tanlinellu mai gwreiddyn ac (yr un pryd) mai disgynnydd Dafydd ydyw (Datguddiad 22:16).

Pwyswch y botwm sy'n symud pethau ymlaen oddi wrth gyfnod Eiseia at y noson honno ym Methlehem a gallwn weld y nodweddion hyn yn cael eu datguddio. Yr oedd y Duw oedd yn rhagsynhwyro'i bresenoldeb ei hun yn ein plith yn dod, nid yn unig i ymgorffori'r teulu a hiliogaeth y ffydd a addewir i Abraham a'i gynnig i'r holl fyd (Galatiaid 3:14), ac nid yn unig i ddad-wneud pechod Adda (Rhufeiniaid 5:12,18), ond hefyd fel arwydd y byddai'r profiad o greadigaeth Duw y ceir cip sydyn yn unig arno yn Eden cyn ei golli yn cael ei adnewyddu ryw ddydd ar gyfer tragwyddoldeb ('Wele yr wyf yn gwneud pob peth yn newydd', Datguddiad 21:5).

Mae i'r pethau hyn eu goblygiadau ar gyfer sut yr ydym yn byw ein bywydau a sut y rhown fynegiant i'r dasg honno sydd gan yr eglwys wrth iddi fod yn rhan o genhadaeth Duw.

- Fe fyddwn yn cyhoeddi enw Iesu fel yr un sy'n maddau ein gwrthryfel



pechadurus – dyma'n gwaith neu ein gweinidogaeth o efengyl.

- Fe fyddwn yn rhoi mynegiant i drugaredd bob amser ymysg tlodion a rhai dirmygedig y byd, y rhai sy'n cael eu hanghofio a'u hesgeuluso, eu defnyddio a'u camddefnyddio, a byddwn yn eu gwahodd i mewn i deulu'r ffydd – ein gweinidogaethau o dosturi.
- Ac fe fyddwn yn cynnal gobaith gwir a sicr o'n blaenau a gerbron byd toredig, o greadigaeth wedi ei hadnewyddu pryd y bydd popeth yn canfod ei gyflawniad yng Nghrist – ein tasg broffwydol.

Fe ddaeth pob rhan o'r stori hon – pob person a fu fyw erioed, pob planhigyn ac anifail, pob atom mewn bodolaeth – i fod trwy Iesu (loan 1:3) ac mae pob peth wedi ei gymodi yng Nghrist (Colosiaid 1:20). Rhyw ddydd fe wireddir y cymod hwnnw mewn byd newydd a nefoedd newydd (Datguddiad 21:1). Dyma ystod eang yr ysgrhythur, gydag Iesu yn amlwg wrth ei galon.

Os mai am y tangnefedd 'sydd goruwch pob deall' y mae ein hymchwil (Philipiad 4:7), yna ni ellir dod o hyd iddo y tu allan i Iesu. Pobl Iesu ydym ni, ac fel arall does gennym ni ddim i'w gynnig i fydd sydd mewn cymaint o boen. Ond er mwyn i'r cyfan yma ddod i fod, roedd yn rhaid i Iesu ddod yn rhan o brofiad y rhai a greodd. Stori'r Nadolig yw diwedd dechrau stori Duw, a dechrau ei diwedd.

Llyfr Nadoligaidd newydd i addysgu plant am ffoaduriaid

Cyhoeddwyd *Cyfrinach Noswyl Nadolig* gan Eurgain Haf (Y Lolfa) yn barod at y Nadolig. Yn ogystal â stori Nadoligaidd hyfryd mae i'r gyfrol wers bwysig iawn, sef pwysigrwydd bod yn garedig wrth bawb, o bob cefndir a hil.

Mae Eurgain Haf, sy'n gweithio i elusen ryngwladol Achub y Plant, yn aml yn clywed straeon am bobl a phlant yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd i adael eu cartrefi a'u gwlad. Nid yw hi'n ddiogel iddyn nhw fyw yno oherwydd gwrthryfel, trais, erledigaeth neu newyn.

Meddai'r awdures: 'Roeddwn yn awyddus i ysgrifennu llyfr am ffoadur i godi ymwybyddiaeth o fywydau plant sy'n gorfod ffoi o'u cartrefi a'u cymunedau, ac annog sgwrs ehangach am beth allwn ni ei wneud i'w helpu. Mae'n bwysig ceisio deall sefyllfaoedd rhai sy'n llai ffodus na ni a dysgu bod yn garedig.'

Yng nghefn y gyfrol mae nodiadau ar gyfer athrawon a rhieni sy'n cynnig syniadau am rai o'r pethau y gellid eu trafod wrth ddarllen y llyfr.



'Mae gan bob plentyn yr hawl i deimlo'n ddiogel ac i gael ei amddiffyn. Mae gan bob plentyn yr hawl i gael addysg – ac i fod yn blentyn. Nid yw'r pethau yma'n hawliau naturiol yn rhai o wledydd y byd,' meddai Eurgain.

Ar draws y byd mae tua 26 miliwn o ffoaduriaid, ac mae eu hanner nhw'n blant. Mae'r rhan fwyaf yn ffoi o wledydd fel Syria, Affganistan, Somalia a De Swdan. Mae nifer yn ffoi ar droed ac yn cerdded am ddyddiau, gan wynebu peryglon enbyd er mwyn cyrraedd gwrsylloedd diogel i ffoaduriaid. Mae rhai ffoaduriaid yn ceisio croesi i wlad arall mewn lorri neu ar gwch bychan, ac yn aml iawn mae'r daith yn beryg bywyd.

Mae *Cyfrinach Noswyl Nadolig* yn stori hudol sy'n datgelu bod anifeiliaid yn medru siarad ar Noswyl Nadolig! Mae amryw o anifeiliaid caredig, gan gynnwys cath, tylluan wen, ci defaid ac asyn, yn helpu Samir, ffoadur sydd yn cysgu yn y dociau, i gerdded i Fethlehem yng Nghymru, at deulu caredig a fydd yn gofalu amdano. Ceir lluniau hyfryd yr artist a'r dylunydd profiadol Siôn Morris, sy'n rhoi naws arbennig i'r llyfr. Bu Eurgain a Siôn hefyd yn cydweithio ar gyfrol flaenorol, *Y Boced Wag*, oedd yn ymdrin â mabwysiadu.

Mae *Cyfrinach Noswyl Nadolig* gan Eurgain Haf ar gael nawr (£5.99, Y Lolfa).

Glasgow ac Efail-wen

Mae Cymdeithas Gweinidogion Bro'r Preseli yn cwrdd yng Nghaffi Beca, Efail-wen, ar yr ail fore Mawrth o bob mis. Daw gweinidogion o bob enwad ynghyd o Sir Benfro a'r siroedd cyfagos i gymryd rhan mewn trafodaethau ac i fwynhau cymdeithas â'i gilydd.

Gan fod cyfarfod mis Tachwedd yn cyd-daro â Chynhadledd COP26 yn Glasgow, gwahoddwyd y Parch Gethin Rhys, Swyddog Polisi (Senedd Cymru) Cytûn, i siarad â ni yn yr Efail-wen yn fyw o Glasgow drwy wyrth y dechnoleg rithiol.

Cafwyd sgwrs ddifrif iawn gan Gethin, yn ôl ei arfer, wrth iddo rhannu â ni ei argraffiadau o holl weithgarwch yr wythnos gan ein goleuo yn ei ffordd fyrlymus a dealladwy am faterion allweddol a phwysig.

Rydym fel cymdeithas o weindogion yn ddiolchgar iawn i Gethin am roi o'i amser i ni. Edrychwn ymlaen at glywed argraffiadau pellach ganddo wedi i'r gynhadledd ddod i ben.


Beti-Wyn James
Caerfyrddin



Gwasanaeth Carolau Rhithiol – rhaghysbysiad

Mae Is-bwyllgor Chwiorydd Eglwys Bresbyteriaidd Cymru yn cynnal gwasanaeth carolau rhithiol dydd Mercher, 8 Rhagfyr 2021, am 11 o'r gloch.

Daw mwy o fanylion yn nes ymlaen. Croeso cynnes i bawb.



Lansio cofiant Syr David James, cymwynaswr Pantyfedwen

Cynhelir digwyddiad i lansio'r gyfrol *DJ James: Ei Fywyd a'i Ddylanwad* nos Wener, 19 Tachwedd, am 6 o'r gloch. Bydd cyfle i glywed yr awdur, Richard Morgan, yn sôn rhywfaint am hanes y gŵr arbennig hwn o Geredigion a'r dylanwad a gafodd ar Gymru a'i phobl.

Bydd cyfle i griw bychan o bobl fod yn bresennol yn Adeilad Pantyfedwen, Aberystwyth, ar gyfer

y lansiad, ac mae croeso i bawb arall ymuno ar Zoom.

Rhowch wybod a fydddech yn dymuno ymuno â ni ym Mhantfedydd (y cyntaf i'r felin fydd hi!) neu a hoffech dderbyn y ddolen i ymuno ar Zoom.

Cysylltwch i gofrestru: 01970 612806 / post@jamespantyfedwen.cymru

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Gogoniant

Gyda gweledigaeth o ogoniant yr Arglwydd Iesu Grist, daw calendr y flwyddyn eglwysig i ben y Sul hwn.

Mae'r holl ddarlenniadau, yr holl fyfyrddodau a gafwyd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio yn ein tywys, yn anorffod bron, i sylu ar weledigaeth sydd mewn gwirionedd y tu hwnt i ganfyddiad llygaid daearol. Gweledigaeth ydyw sydd y tu hwnt i allu meidrol i'w chostrely yn ein geiriau. Fe'n harweinir heddiw at weledigaeth ac at ddealltwriaeth newydd o ogoniant ac o frenhiniaeth gadarn yr Arglwydd Iesu Grist.

Yn ei ymgawdoliad ym Methlehem, ei ddarostyngiad, ei ufudd-dod, ei farwolaeth ar y groes, ei atgyfodiad a'i esgyniad, datguddiwyd brenhiniaeth yr Arglwydd Dduw. Nid oes eiliad na ddoe, na heddiw, ac ni fydd i'r dyfodol ennyd pryd y peidiodd â bod yn Arglwydd. Ac ni fydd ei eglwys, yr ochr hon i gyflawniad terfynol ei holl fwriadau, yn peidio â gweddio 'Deled dy deyrnas, gwneled dy ewyllys, megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd ... Canys eiddot ti yw'r deyrnas, a'r nerth, a'r gogoniant, yn oes oesoedd, Amen.'

Gweddi

Arglwydd Dduw, mewn gostyngiedrwydd plygwn ger dy fron gan gydnabod mai ti yw'r Arglwydd a'n carodd. Ond, Arglwydd, mor fas yw ein deall, ac mor arwynebol yw ein dirnadaeth a'n profiad ohonot. Er hyn, nesawn atat i'th allodi:

Dysg in adnabod y Duw Dad,
y gwir Fab rhad a thithau
yn un tragwyddol Dduw i fod,
yn hynod dri Phersonau. Amen.

Emyn 323 'Mawr oedd Crist yn nhragwyddoldeb'

Cyflwyniad

Dychmygwch am foment frenin. Roedd ei rym yn ddigwestiwn dros ei ddeiliaid. Roedd yn unben absoliwt. Hyd yn oed pe byddai ei lywodraeth yn anghyfiawn, ei benderfyniadau'n fympwyol, ei ddiddordeb yn ei ymerodraeth yn gyfnewidiol, mewn brenhiniaeth absoliwt rhywun peryglus i'w groesi oedd y brenin. Dim ond angau neu wrthryfel allai ei atal a'i symud o'i le.

Dychmygwch yn awr frenin cyfiawn, da, trugarog oedd â diddordeb yn lles ei bobl. Roedd ei gyfreithiau'n gyfiawn, ei lywodraeth yn gyson. Er mor gyfiawn ei lywodraeth, gwrthryfelodd rhai o'i ddeiliaid i'w erbyn.

Onid oedd Absalom am ddiorseddu ei dad? Neu Jehu am ddifa Ahab?

Am iddynt gredu addewidion twyllodrus a wnaed gan y gwrthryfelwyr, ymunodd eraill yn y brad a'r gwrthryfel, a buan y trodd y gwrthryfel yn rhyfel cartref didrugaredd. Cymaint oedd grym y brwydro nes i rai o'r gwrthryfelwyr dybio i'r gwrthryfel fod yn llwyddiant a bod y brenin wedi disgyn o'i orsedd ac ar ffo, a'i fod yn alltud bellach o'i wlad, ymhell o'i deyrnas a'i frenhiniaeth.

Buan y daeth y rhai a ymunodd â'r gwrthryfelwyr i sylweddoli nad oedd gan y llywodraethwyr newydd unrhyw ddiddordeb mewn lywodraethu'n gyfiawn na chwaith er eu lles hwy. Sloganau gwag oedd eu haddewidion, twyllodrus a bradwrs oedd eu holl eiriau. Cyhoeddwyd ar bennau'r tai ganddynt fod y brenin ar ffo, bod ei deyrnas wedi syrthio, ac mai ofer oedd parhau i wrthsefyll eu pŵer a'u gallu.

I'r rhai teyrngar i'r brenin, achos galar oedd propaganda'r gelyn. Fe ddechreuson nhw amau. Tybed a oedd y brenin yn dal i lywodraethu? A'r ddinas o dan warchae, tybed a oedd y brenin ar ffo? A oedd yn alltud o'i ddinas? Os oedd y brenin ar ffo ac wedi cefnu ar ei bobl (fel roedd y gelynion yn cyhoeddi), tybed nad oedd y brenin yn deilwng o'u ffyddlondeb wedi'r cyfan?

Ond yna, a'r fyddin lesig ar fin ildio'n llwyr i oruchafiaeth y gelyn, clywyd llais. Clywyd bloedd oedd ynddi'i hun yn adfywiol ac yn atgyfnerthu'r gwannaf a'r mwyaf clwyfedig. Roedd yn newyddion da. Roedd rhywrai y medrent eu credu wedi gweld y brenin ar ei orsedd a'i weision mewn gosgordd ogoneddus yn cyhoeddi ei ogoniant. Nid yw'r Arglwydd wedi peidio â lywodraethu, meddant. Ni chafodd ei erlid o'i orsedd ac nid yw wedi cefnu ar ei bobl. 'Mae'r Arglwydd yn teyrnasu' yn wir!

Darllen Salm 93

Mor rymus a gobeithiol yn wir yw'r fath gyhoeddiad i bobl sy'n gwangalonni: 'Mae'r Arglwydd yn teyrnasu'. Yr un pryd dyma gyhoeddiad i arswydo pob gwrthryfelwr sy'n sylweddoli mai ffolineb oedd gwrthwynebu'r Arglwydd a'i eneinio.

Gorchmynnwyd i Eisea: 'Cod dy lais yn gryf ... gwaedda, paid ag ofni. Dywed wrth ddinasoedd Jwda, "Dyma eich Duw chwi." Wele'r Arglwydd Dduw yn dod mewn nerth, yn rheoli â'i fraich. Wele, y mae ei wobriganddo a'i dâl gydag ef.' (Eisea 40:9-11)

Dyma gyhoeddiad rhyfeddol. Mae'r Brenin, na pheidiodd â bod yn frenin, ar fin dod, i arddangos ei frenhiniaeth unwaith ac am byth!

Ond nid brenhiniaeth ddaearol mo hon ac nid awdurdod sy'n syrthio'n daclus i categorïau dynol mo brenhiniaeth yr Arglwydd.

Darllen Ioan 18: 33-7

Pan gyfarfu cynrychiolydd ymerodraeth fwyaf ei ddydd â brenin 'gwirionedd', nid oedd gan Pilat mo'r adnoddau i ddeall ei eiriau, nac i brosesu gogoniant rhyfeddol ac amgen Iesu. Nid llywodraeth oedd yn dibynnu ar allu a grym milwrol, na chwaith yn dibynnu ar gydsyniad pobl, mo brenhiniaeth yr Arglwydd a safai o'i flaen. Er nad yw ei frenhiniaeth yn tarddu o'r byd daearol sy'n elyniaethus i Dduw, nid brenhiniaeth arallfydol mohoni chwaith. Nid teyrnas i'w chloriannu gan categorïau dynol mo hon, ond brenhiniaeth sy'n gosod pob ymerodraeth yn ei chlorian a'i chael yn brin. Mae realiti ei frenhiniaeth yn ddigamsyniol, yn ddiogel ac yn wirionedd sy'n cael ei gydnabod a'i adnabod gan bawb sy'n gwrandao ar ei lais.

Darllen Datguddiad 1:4b-8

Dyma ehangder gogoniant brenhiniaeth ddigamsyniol Iesu Grist, y tyst ffyddlon, sy'n frenin ar angau ac ar ymerawdwr yr oesau. Dyma'r un a'n carodd hyd yr eithaf ac sy'n deilwng o bob gallu a gogoniant. Gogoniant ydyw sy'n deillio ynddo'i hun ac sy'n adlewyrchu yn ôl ato ym mawl ei saint. Dyma'r frenhiniaeth sydd ar fin cael ei hamlygu mewn ffordd na fydd hyd yn oed ei gelynion yn methu ei hosgoi. Dyma'r Alfa ac Omega, y dechrau sy'n llywodraethu a diwedd glo pob gogoniant a brenhiniaeth ac awdurdod.

Gweddi

Arglwydd Dduw, wrth dy draed, dysg i mi, 'beth wyf fi a phwy wyt ti'. Cydnabyddwn o'th flaen dy hawl i lywodraethu. Cyffeswn ein bod wedi gwrthryfela i'th erbyn a bod ein geiriau a'n gweithredoedd yn tystio yn ein herbyn. Heddiw, rydym am ildio ein coron ger dy fron a dod o'th flaen gan ddeisyf dy drugaredd a'th faddeuant.

Gweddi'r Arglwydd

Emyn 255 'Saif brenhiniaeth fawr yr Iesu'

RWJ

Cyhoeddir Cenn@d ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr Cenn@d yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru



CennadCymru



@CennadCymru